Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meisha Evans**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Mae gan y plant lais cryf ac maent yn hyderus am wneud eu dewisiadau eu hunain. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda ac maent yn ymgysylltu'n dda â'r gwarchodwr plant. Mae gan y plant ddiddordeb ac maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn datblygu lefel dda o annibyniaeth ar gyfer eu hoedran, eu hanghenion a'u camau datblygu.

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n fodel rôl dda ac mae'n rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ac yn datblygu anghenion dysgu'r plant drwy arsylwi ar eu hanghenion, eu dewisiadau a'u galluoedd yn ofalus.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr eiddo yn gynnes, yn gyfforddus ac yn groesawgar. Mae'n defnyddio systemau priodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ar gael i'r plant, sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu. Mae'n sicrhau bod gan y plant gyfleoedd amrywiol i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu'r lleoliad yn briodol. Mae ganddi ddealltwriaeth addas o'i chyfrifoldebau rheoliadol ac mae'n bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion. Mae adolygiad o ansawdd y gofal y gwarchodwr plant yn llawn gwybodaeth. Mae'n ymarferydd gofal plant cymwys ac mae'n sicrhau ei bod hi a'i chynorthwywyr gwarchod plant wedi bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Mae'r partneriaethau yn effeithiol.

## **Llesiant** **Da**

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Maent yn teimlo ymdeimlad o berthyn yn y lleoliad ac maent yn gyfforddus ac yn gartrefol yng ngofal y gwarchodwr plant. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant yn ddigymell am faldod ac yn eistedd ar ei glin i gael straeon yn rheolaidd. Mae'r plant yn helpu eu hunain i adnoddau ac yn llwyddo i gyfleu eu hanghenion iddi. Mae'r plant yn falch o'u cyflawniadau. Er enghraifft, roedd y plant yn falch o ddangos eu gwaith celf i'r gwarchodwr plant ac yn gwenu wrth glywed *“Mummy is going to love it!”*

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn hyderus wrth wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain. Er enghraifft, maent yn helpu eu hunain i does chwarae, adnoddau celf a chrefft, teganau cerddorol, teganau chwarae rôl a llyfrau. Mae'r plant yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn parchu eu dewisiadau a'u penderfyniadau ac yn gweithredu'n unol â nhw. Maent yn dangos neu'n dweud wrth y gwarchodwr plant beth yr hoffent i'w fwyta ac yfed o oedran ifanc, ac mae'n ymateb yn gyson i'w dewisiadau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gyson dda. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda'i gilydd ac maent yn cynnwys ei gilydd yn eu chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu arian yn llwyddiannus â'u ffrindiau i brynu hufen ia wrth chwarae yn y siop hufen iâ. Mae'r plant yn gwrando ar y gwarchodwr plant ac yn ymateb yn dda iddi. Roeddent yn gwrando pan ddywedwyd wrthynt y dylent fod yn ofalus pan oeddent yn gwasgu eu ffrindiau yn rhy dynn wrth gofleidio. Mae'r plant yn gwrtais o oedran ifanc. Maent yn dweud ‘*please*’ a ‘*ta*’ neu ‘*thank you*’ yn ystod amser byrbryd ac amser cinio. Mae'r plant yn dangos empathi tuag at ei gilydd ac mae ganddynt gysylltiad agos. Maent yn cofleidio eu ffrindiau ac yn awyddus i chwarae rôl ac maent yn dawnsio gyda'i gilydd yn fodlon ac yn hapus.

Mae'r plant yn defnyddio'r adnoddau chwarae sydd ar gael iddynt mewn ffordd weithredol ac yn ymddiddori ynddynt. Maent yn helpu eu hunain i siapiau magnetig lliw ac yn adeiladu castell ar eu pen eu hunain. Maent yn datblygu'r syniadau chwarae hyn ymhellach, gan ddefnyddio'r cymeriadau pren sydd ar gael i wneud ystafelloedd gwely, drysau a ffenestri ar gyfer eu castell. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gludo a phaentio, tra bo'r plant iau yn dangos diddordeb mewn llyfrau sy'n ymwneud â chreaduriaid y môr.

Mae'r plant yn datblygu lefel dda o annibyniaeth a sgiliau yn unol â'u galluoedd datblygiadol personol. Maent yn gyfarwydd â'u harferion dyddiol. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo cyn bwyd ac yn gwybod ble yr hoffent eistedd amser cinio ac amser byrbryd. Maent yn bwyta bwydydd bys a bawd eu hunain ac yn helpu eu hunain i ddŵr. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau echddygol manwl a bras. Maent yn defnyddio cyfarpar i dorri, rholio a gwneud siapiau â thoes chwarae. Mae'r plant yn defnyddio pensiliau, creonau, brwshys paent ac adnoddau celf yn hawdd.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau da i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, gan sicrhau bod pob arwyneb yn lân a bod y plant yn golchi eu dwylo'n rheolaidd cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn rhai gweithdrefnau mewn perthynas â'r polisi newid cewynnau, drwy olchi ei dwylo ar ôl newid pob cewyn. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac nid yw'n diheintio'r mat newid bob tro ar ôl ei ddefnyddio. Mae gan y gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac maent yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe byddai sefyllfa yn codi o ran lles plentyn. Mae'r cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau wedi'u dyddio a'u llofnodi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod â'u pecynnau cinio eu hunain, ac maent yn cael eu cadw yn yr oergell. Mae dŵr ar gael drwy gydol y dydd. Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth dda am iechyd, anghenion deietegol ac anoddefiadau'r plant. Mae'n sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd ar gael i'r plant gael awyr iach yn yr awyr agored a'u bod yn cael cryn dipyn o gyfleoedd chwarae corfforol, cyfleoedd i fynd am dro ac i wneud ymarfer corff wrth ymweld ag atyniadau lleol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gynnes ac yn gadarnhaol. Mae'n dathlu cyflawniadau'r plant ac yn hyrwyddo eu hunan-barch. Er enghraifft, gwnaeth ganmol y plant iau am fwyta'n dda a dathlu pan wnaeth plentyn orffen adeiladu castell gan ddweud “*Wow, that’s amazing!*” Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i rannu ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol. Llwyddodd i sicrhau bod y plant iau wedi'u diddanu â llyfrau a theganau cerddorol, wrth i'r plant hŷn fwrw ati i gwblhau eu prosiectau adeiladu eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl da. Mae'n annog y plant i eistedd wrth y bwrdd ac yn cael sgyrsiau cynnes, hyfryd â nhw am ddiwrnodau allan gyda'u teulu, am aelodau o'u teulu ac am deithiau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel. Mae'n sicrhau bod y plant yn cael maldod a digon o ryngweithio pan fyddant yn chwarae, a phan fydd angen cysur arnynt pan fyddant wedi blino.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ac yn datblygu anghenion dysgu'r plant drwy arsylwi ar eu hanghenion yn ofalus, yn seiliedig ar eu galluoedd a'u dewisiadau. Mae'n trefnu ac yn newid yr adnoddau yn unol â dymuniadau'r plant ac yn sicrhau bod gan y plant ddigon o gyfleoedd i ddysgu am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth. Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwywyr wedi trefnu gweithgareddau crefft a phobi sy'n gysylltiedig ag Eid, dydd Gŵyl Dewi, gwyliau Diwali a dathliadau. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i barciau, i draethau ac i feysydd chwarae er mwyn iddynt archwilio natur. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n gwybod ble y gall gael cymorth i deuluoedd os bydd angen. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r Saesneg drwy ganeuon a llyfrau. Wrth drafod lluniau mewn llyfrau, gwnaeth sicrhau bod gan y plant gyfleoedd i ddysgu enwau creaduriaid y môr, lliwiau a gwahanol batrymau. Mae'n hyrwyddo lliwiau a siapiau drwy chwarae wrth drafod lliwiau'r gwahanol fathau o hufen iâ, ac mae'n sicrhau bod y plant yn dysgu enwau'r siapiau wrth adeiladu modelau o

gestyll. Mae'r gwarchodwr plant yn olrhain cynnydd datblygiadol y plant drwy asesu ac arsylwi ac yn sicrhau y caiff camau nesaf y plant eu nodi a'u rhoi ar waith.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio systemau priodol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'n sicrhau bod y drysau allanol wedi'u cau a bod yr ardal awyr agored yn ddiogel ac wedi'i hamgáu. Mae'r gwarchodwr plant yn nodi unrhyw risgiau posibl i iechyd a diogelwch y plant cyn belled â phosibl. Cadarnhaodd bod y larwm tân yn cael ei brofi'n rheolaidd ac mae'n cynnal ymarferion tân rheolaidd pan fydd y cynorthwywyr gwarchod plant a phlant gwahanol yn bresennol. Fodd bynnag, nid yw'r gwiriad cynnal a chadw ar gyfer y system wresogi wedi cael ei gynnal yn rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o'r rhai sy'n ymweld â'r lleoliad ac mae cofnodion presenoldeb cywir ar gael ar gyfer y staff a'r plant sy'n bresennol yn y lleoliad. Mae'n sicrhau bod cemegion a meddyginiaethau yn cael eu cadw allan o gyrraedd y plant. Mae pecynnau cymorth cyntaf ar gael yn yr eiddo ac yn y car ar gyfer teithiau allan.

Mae'r gwarchodwr pant yn sicrhau bod yr eiddo yn groesawgar, yn gyfforddus ac yn addas i blant. Mae'n darparu byrddau a chadeiriau lefel isel a dodrefn bwyta mwy ar gyfer plant hŷn yn y gegin a'r ardal fwyta, yn ogystal â chadeiriau uchel ar gyfer babanod a phlant iau. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy ddarparu cymhorthion iddynt fynd i'r toiled, sebon hylif a chadachau unigol er mwyn sychu dwylo yn ardal y toiled ar y llawr gwaelod. Mae digon o le yn yr ardal chwarae a'r ardal fyw dan do. Mae'n sicrhau bod yr adnoddau a'r dodrefn ar uchder addas i'r plant allu cael gafael arnynt yn annibynnol. Mae ardal awyr agored fawr sy'n addas i blant o bob oed a cham datblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau ar gael i'r plant. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau Cymraeg a Saesneg a theganau a llyfrau sy'n hyrwyddo gwahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth. Y tu mewn i'r eiddo, ceir teganau chwarae rôl, teganau byd bach, cymeriadau a blociau pren, set trenau, darnau rhydd o faint addas, adnoddau crefft, cyfleoedd paentio a chwarae blêr. Mae'n trefnu'r ardal awyr agored er mwyn hyrwyddo sgiliau corfforol a sgiliau archwilio'r plant. Er enghraifft, mae ardal laswellt artiffisial ag adnoddau chwarae rôl, ardaloedd chwarae â thywod a dŵr a theganau gwthio. Mae posau a theganau adeiladu ar gael i'r plant hŷn, ac ardal laswelltog awyr agored ar wahân sy'n cynnwys goliau, peli, siglenni, llithrenni a thrampolîn.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus. Mae ganddi ddealltwriaeth addas o'r rheoliadau ac o'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu'r datganiad o ddiben yn rheolaidd sy'n cynnig adlewyrchiad da o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r polisïau yn gyfredol ac mae'n cadarnhau ei bod yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n rhoi'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd. Diwygiwyd y polisi diogelu i adlewyrchu'r gweithdrefnau i'w dilyn os ceir honiad neu gŵyn yn erbyn y gwarchodwr plant neu'r cynorthwywyr, ac mae bellach yn cynnwys y ddyletswydd atal a diogelwch ar-lein. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan bob aelod o'r aelwyd a'r cynorthwywyr gwarchod plant wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gwiriad DBS y gwarchodwr plant wedi dod i ben, ond mae wedi gwneud cais am wiriad newydd. Cyflwynwyd tystiolaeth o hyn i AGC ar ddiwrnod yr arolygiad er mwyn dangos ei bod wedi gwneud hynny mewn modd amserol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnodion priodol, gan gynnwys contractau a chaniatadau'r plant. Mae'r cofnodion y dangos ei bod yn sicrhau cymarebau addas rhwng y staff a'r plant a'u bod bob amser yn cael eu cynnal.

Mae'r gwarchodwr plant wedi ysgrifennu adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y lleoliad, sy'n llawn gwybodaeth. Mae'n gofyn am farn y rhieni, y plant ac eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn casglu eu safbwyntiau ynghyd. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu disgrifiad cadarnhaol a manwl o'i lleoliad gwarchod plant a'r gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Mae'n creu targedau gwella ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae'r gwarchodwr plant  yn cwblhau hyfforddiant gorfodol yn ogystal â threfnu hyfforddiant i'w chynorthwywyr gwarchod plant. Fodd bynnag, mae dyddiad ei hyfforddiant hylendid bwyd wedi mynd heibio ac nid yw'r hyfforddiant diogelu ar gyfer un o'r cynorthwywyr gwarchod plant yn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i'w datblygiad proffesiynol ei hun ac yn dod o hyd i gyfleoedd hyfforddi ychwanegol fel hyfforddiant ar y Cwricwlwm i Gymru, hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol, rheoli ymddygiad, iaith arwyddion, hyfforddiant awyr agored a hyfforddiant ysgol goedwig. Mae'r gwarchodwr plant yn rhannu newidiadau a gwybodaeth bwysig ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac mae wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae systemau ar waith er mwyn sicrhau y cynhelir gwiriadau addasrwydd ar y cynorthwywyr gwarchod plant. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cynorthwywyr gwarchod plant yn cael arfarniadau blynyddol a chaiff trafodaethau goruchwylio datblygiad proffesiynol rheolaidd eu cynnal â'r staff. Cadarnhaodd y cynorthwywyr gwarchod plant eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i ymgymryd â hyfforddiant pellach er mwyn hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r sesiynau goruchwylio yn cael eu cofnodi.

Mae'r partneriaethau yn gadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn mantesio ar bob cyfle i ymgysylltu â'r rhieni am lesiant a chynnydd y plant. Mae'n defnyddio ap webform i gyfathrebu â'r rhieni ac yn cael trafodaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae gan y gwarchodwr

plant gysylltiadau da â'r gymuned leol ac eraill. Mae'n sicrhau bod gan y plant gyfleoedd i gyfarfod â phlant eraill mewn cylchoedd chwarae ac mae'n sicrhau eu bod yn ymweld ag atyniadau lleol ac ardaloedd naturiol megis coetiroedd a thraethau yn rheolaidd. Dywedodd y rhieni wrth AGC eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad gwarchod plant. Mae eu plant bob amser yn hapus yng ngofal y gwarchodwr plant ac wedi meithrin cydberthynas ardderchog â hi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau y dilynir gweithdrefnau a pholisïau atal a rheoli heintiau wrth newid cewynnau. |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau bod yr hyfforddiant ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd yn bodloni gofynion y safonau gofynnol cenedlaethol |
| Safon 23 - Cyfarpar | Sicrhau y caiff gwiriadau addasrwydd eu cynnal yn rheolaidd |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio'r cynorthwywyr gwarchod plant eu cofnodi |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/09/2024